# Urdd Gobaith Cymru

## Sul yr Urdd 2012

**Tachwedd 18fed, 2012**

**Thema - Y Freuddwyd**

**Oedfa ar gyfer Ysgol Gynradd.**

**Lluniwyd gan Beti-Wyn James**

Lluniwyd oedfa gyflawn ar gyfer
Sul yr Urdd y gellir tynnu ohoni
os yw'n ddymuniad i ymestyn yr oeda hon.

urdd.org

**Arweinydd (person hŷn) :** Croeso cynnes i'r oedfa!

**Ydych** chi ar ddihun y bore 'ma?!

Wel, beth am inni ganu emyn i'n dihuno'n iawn!

**Emyn 57** (Caneuon Ffydd): *'Molwch a**r** yr utgorn a thympan a dawns..'*

**Arweinydd yn cyfarch y plant.**

Ydych chi'n breuddwyio ambell waith?

Am beth ydych chi'n breuddwydio?

Ai dim ond yn y nos, wrth inni gysgu rydyn ni'n breuddwydio? (Na)

Mae'n bosib breuddwydio yn ystod y dydd hefyd, gyda'n llygaid ar agor!

Gwrandewch ar y sgwrs hon rhwng (enwau'r plant)

**Deialog Lleisiau 1,2,3**

Llais 1: Zzzzzzzzzz… *(yn chwyrnu wrth esgus cysgu.)*

Llais 2: Dihuna (enw)! Dihuna!

Llais 1: *(wrth ddihuno/ymestyn breichiau/rhwbio llygaid)* O… roeddwn yn cysgu'n braf bryd hynny!

Llais 2: Dihuna! Rwyt ti wedi bod yn breuddwydio.

Llais 1: Breuddwydio? Nac ydw!

Llais 3: Maen nhw'n dweud bod pob un ohonom yn breuddwydio bob nos ond dydyn ni ddim bob amser yn cofio'n breuddwyd.

Llais 2: Nid yn unig yn y nos rydych yn breuddwydio, fe allwch freuddwydio yn ystod y dydd hefyd.

Llais 1: Fe allwch freuddwydio gyda'ch llygaid ar agor! Mae fy athrawes ysgol yn dweud wrthyf i ambell waith fy mod mewn breuddwyd!

Llais 2: Mae 'na sawl math o freuddwyd a sawl ffordd o freuddwydio. Gallwn freuddwydio wrth gysgu yn y nos, ond hefyd, fe allwn freuddwydio breuddwydion arbennig iawn – breuddwydio am ein dyfodol.

Llais 3: Am beth yn y byd wyt ti'n siarad nawr?!

Llais 1: Ie… ry'n ni wedi dy golli di nawr!

Llais 2: Wel, fe allwn freuddwydio ein bod mewn man arall, neu am gael bod fel rhywun arall, ein harwr falle. Wrth gicio pêl rygbi ar draws gae'r ysgol, fe allwn freuddwydio ein bod yn Rhys Priestland yn Stadiwm y Mileniwm, neu'n George North wrth inni redeg â'r bêl.

Llais 1: Neu'n Ryan Giggs wrth gicio pêl droed.

Llais 3: Neu'n un o arwyr byd athletau'r Gemau Olympaidd wrth redeg!

Llais 2: Ie, yn union! Ond fe allwn freuddwydio math gwahanol eto o freuddwydion. Breuddwydio am weld y byd yn gwella ac yn dod yn fyd hapus.

**Deialog Lleisiau 4,5,6**

Llais 4: Mae llawer o bobl wedi breuddwydio breuddwydion arbennig iawn. Eleni, rydym yn cofio am y freuddwyd fawr a gafodd gŵr o'r enw Syr Ifan ab Owen Edwards 90 mlynedd yn ôl.

Llais 5: Roedd ganddo freuddwyd fawr ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 6: Ei freuddwyd oedd creu mudiad lle byddai pobl ifanc yn cael budd o'u profiadau cymdeithasol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Llais 4: Mae gan yr Urdd erbyn heddiw 50,000 o aelodau a 950 o ganghennau ym mhob cwr o Gymru, sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Llais 5: Gallwn ddweud i sicrwydd fod breuddwyd Syr Ifan wedi'i gwireddu.

Llais 6: Eleni mae'r Urdd yn dathlu'i phen-blwydd yn naw deg oed!

Llais 4: Naw deg oed! Dyw hi ddim wedi heneiddio o gwbl!

Llais 5: Nac ydy wir! Mae'n sionc o hyd!

Llais 6: Yn heini! Ac yn llawn bywyd!

Llais 4: Mae Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru yn cytuno â ni! Lluniodd gerdd yn arbennig ar gyfer dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90! Beth am ei chlywed?

**<u>Llefarydd/Parti Llefaru</u>**

**Mae'r Urdd yn Naw Deg**

Mae'r Urdd yn naw deg,
Wel, wel, chware teg!
Mae'n rhedeg a dawnsio
A hithau'n naw deg!

Does angen na ffon
Na *zimmer* ar hon,
Ni welais neb sioncach
Na'r hen lodes lon.

Mae'n canu, llefaru,
Mae'n hoff o gystadlu,
Mae hefyd yn ffrindiau
Â phob un yng Nghymru.

Dewch draw, bawb, i'r parti,
Mae'n naw deg eleni!
Fe rown ni lond noson
Yn llawen iawn iddi.

Dewch heno, cyd-ddathlwn
Gyda hon, a rhyfeddwn –
Mae'n neidio a rhedeg
I gasglu ei phensiwn!

Mae ganddi lond ceg,
Oes wir, chware teg,
O'i dannedd ei hunan,
A hithau'n naw deg!

Pan fydda' i'n hen,
Os bydda'i mor glên
A heini â honno,
Mi ro'i glamp o wên!

*Eurig Salisbury*

**Deialog Lleisiau 7,8,9**

Llais 7: Mae'n bwysig iawn ein bod yn breuddwydio breuddwydion.

Llais 8: Breuddwydiodd Syr Ifan ab Owen Edwards ar weld mudiad arbennig yn cael ei sefydlu ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 9: Rydym wedi anghofio sôn am un arall a gafodd freuddwyd pwysig iawn.

Llais 8: Un arall? Pwy?

Llais 8: Iesu Grist! Roedd gan Iesu freuddwyd mawr iawn!

Llais 7: Wel oedd, yn sicr. Fe freuddwydiodd Iesu Grist am weld byd yn byw mewn ffordd arbennig iawn.

Llais 8: Byd heb ryfel, ond yn byw mewn heddwch.

Llais 9: Byd lle mae pawb yn maddau i'w gilydd.

Llais 7: Byd lle mae pawb yn garedig i'w gilydd.

Llais 8: Byd yn byw mewn cariad, a hwnnw'n gariad Duw.

Llais 9: Ie, roedd gan Iesu freuddwyd arbennig iawn am weld pawb yn y byd yn caru'i gilydd.

**Arweinydd:** Ydy chi'n credu fod breuddwydd Iesu wedi dod yn wir?

Ydy'r byd hwn heddiw yn un teg a hapus?

**Lleisiau 7,8,9**

Llais 7: Dydw i ddim yn credu'i bod. Dyna siom.

Llais 8: Ie. Ond … mae Iesu am i ni'i helpu i wireddu'i freuddwyd! Dyna gyffrous!

Llais 9: Sut yn y byd allwn ni wneud hynny?!

Llais 7: Wel, trwy sianelu cariad Duw at eraill yn ein bywyd wrth gwrs!

Llais 8: Trwy rannu neges heddwch â'r byd, yn union fel mae ieuenctid Cymru'n rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da bob blwyddyn.

Llais 9: Reit! Awn amdani! I freuddwydio gyda Iesu, a'i helpu i weld ei freuddwyd yn cael ei gwireddu!

Llais 7,8,9: Awê!!!

**Gweddi**

Gweddïwn
O Dad, helpa ni **i** freuddwydio breuddwydion.
Breuddwydio gyda phawb a freuddwydiodd o'n blaenau.

Diolch i ti am yr Urdd, ac am freuddwyd Syr Ifan,
a diolch bod cenedlaeth**a**u o blant Cymru wedi elwa cymaint oherwydd iddo freuddwydio.

Diolch am Iesu Grist,
ac am iddo'n gwahodd ninnau i rannu yn ei freuddwyd
am weld cariad, maddeuant a heddwch yn llywodraethu yn ei fyd.

Rho'r nerth a'r dewrder i ni sôn wrth ein ffrindiau am gariad Duw.

Yn enw Iesu Grist.
Amen

**Emyn 866** (Canuon Ffydd): '*Anfonodd Iesu fi..*'

# Urdd Gobaith Cymru

## Sul yr Urdd 2012

### Tachwedd 18fed, 2012

### Thema - Y Freuddwyd

### Oedfa ar gyfer Ysgol Uwchradd.

### Lluniwyd gan Beti-Wyn James

Lluniwyd oedfa gyflawn ar gyfer
Sul yr Urdd y gellir tynnu ohoni
os yw'n ddymuniad i ymestyn yr oeda hon.

urdd.org

**Arweinydd:** Deffrowch! Mae'n fore!

Croeso cynnes i'r gwasanaeth!

**Emyn 57** (Canueon Ffydd): *'Molwch ar yr utgorn a thympan a dawns..'*

**Deialog**

Llais 1: Sut noson o gwsg gawsoch chi neithiwr?

Llais 2: A fuoch chi'n breuddwydio?

Llais 3: Maen nhw'n dweud bod pob un ohonom yn breuddwydio bob nos ond dydyn ni ddim bob amser yn cofio'n breuddwyd.

Llais 2: Dim ond breuddwydion drwg mae rhai yn eu cofio!

Llais 1: Nid yn unig yn y nos rydym yn breuddwydio. Fe allwch freuddwydio yn ystod y dydd hefyd.

Llais 3: A glywsoch chi erioed yr athro neu'r athrawes ddosbarth yn eich cyhuddo o fod mewn breuddwyd?!!

Llais 1: Mae 'na sawl math o freuddwyd a sawl ffordd o freuddwydio. Gallwn freuddwydio wrth gysgu yn y nos, ond hefyd, fe allwn freuddwydio breuddwydion arbennig iawn – breuddwydio am ein dyfodol.

Llais 2: Fe allwn freuddwydio ein bod mewn man arall, neu am gael bod fel rhywun arall, ein harwr falle.

Llais 1: Ond fe allwn freuddwyio math gwahanol eto o freuddwydion. Breuddwydion am weld y byd yn gwella.

Llais 3: Breuddwydio breuddwydion am weld pawb yn y byd yn derbyn yr un cyfleoedd a'r byd yn un teg a llawen. Mae 'na nifer wedi breuddwydio breuddwydion tebyg. Un o'r breuddwydion enwocaf a freuddwydiwyd erioed oedd un gan Martin Luther King.

**Llefarydd:**

Awst 29, 1963. Dyma'r dyddiad y bu Martin Luther King, yr ymgyrchydd dros hawliau'r bobl ddu yn America rannu'i freuddwyd â'r byd.

Ac na, nid cysgu yn y gwely oedd e wrth freuddwydio, ond sefyll ar ei draed, o flaen cerflun Abraham Lincoln yn ninas Washington a miloedd ar filoedd o bobl yn gwrando arno'n sôn am ei freuddwyd.

Dywedodd fel hyn:
'Mae gen i freuddwyd y bydd fy mhedwar plentyn bach yn gallu byw rhyw ddydd mewn cenedl lle bydd eu cymeriad yn bwysicach na lliw eu croen;
Mae gen i freuddwyd y bydd bechgyn  a merched bach tywyll eu croen rhyw ddydd yn medru dal dwylo gyda merched a bechgyn bach croen golau:
Mae gen i freuddwyd heddiw…'

**Deialog:**

Llais 1: Mae llawer o bobl Cymru wedi breuddwydio breuddwydion ac yn eu plith, Gwynfor Evans.

Llais 2: A wyddoch ein bod yn cofio canmlwyddiant geni Gwynfor Evans ar Fedi'r ail eleni?

Llais 3: Cafodd ei eni  yn nhre'r Barri, Bro Morgannwg yn fab i siopwr.

Llais 1: Ef oedd un o wleidyddion mwya'r ugeinfed ganrif yng Nghymru.

Llais 2: Roedd yn Gristion ac yn heddychwr.

Llais 3: Breuddwydiodd Gwynfor Evans freuddwyd arbennig iawn am weld sianel deledu yn ein hiaith.

**Llefarydd:**

Medi 1980. Daeth neges yn dweud bod Prif Weinidog Prydain Fawr wedi newid ei meddwl ynglŷn â sefydlu Sianel Deledu Gymraeg i Gymru.

Bu ymgyrchwyr iaith yn brwydro ers nifer fawr o flynyddoedd dros gael gwasanaeth teledu Cymraeg. Gwrthododd rhai amlwg dalu'r drwydded deledu, a bu protestwyr yn dringo mastiau darlledu.

Gwnaeth Gwynfor Evans fygwth ymprydio hyd at farwolaeth ar ôl i'r Llyworaeth fynd yn ôl ar ei haddewid i roi sianel Gymraeg i Gymru.

Ond newidiodd y Prif Weinidog ei meddwl unwaith yn rhagor a chytuno i sefydlu'r Sianel.

Ar Dachwedd 1af 1982, lansiwyd y sianel Gyrmaeg, S4C.

Dyma weld o'r diwedd, wireddu breuddwyd Gwynfor Evans a'r ymgyrchwyr iaith eraill yn ein cenedl.

**Deialog:**

Llais 1: Yn ogystal **â** dathlu can mlynedd ers geni Gwynfor Evans 'rydym hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig arall y flwyddyn hon.

Llais 2: Ydyn. Eleni mae'r Urdd yn dathlu ei phen-blwydd yn naw deg oed!

Llais 3: Mae'n naw deg oed a dyw hi ddim wedi heneiddio o gwbwl!

Llais 1: Mae'r Mudiad yn dal i fod yn sionc, yn heini ac yn llawn bywyd!

Llais 2: Mae Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru, yn cytuno â ni! Lluniodd gerdd yn arbennig ar gyfer dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90! Beth am ei chlywed?

**<u>Llefarydd/Parti Llefaru</u>**

**Mae'r Urdd yn Naw Deg**

Mae'r Urdd yn naw deg,
Wel, wel, chware teg!
Mae'n rhedeg a dawnsio
A hithau'n naw deg!

Does angen na ffon
Na *zimmer* ar hon,
Ni welais neb sioncach
Na'r hen lodes lon.

Mae'n canu, llefaru,
Mae'n hoff o gystadlu,
Mae hefyd yn ffrindiau
Â phob un yng Nghymru.

Dewch draw, bawb, i'r parti,
Mae'n naw deg eleni!
Fe rown ni lond noson
Yn llawen iawn iddi.

Dewch heno, cyd-ddathlwn
Gyda hon, a rhyfeddwn –
Mae'n neidio a rhedeg
I gasglu ei phensiwn!

Mae ganddi lond ceg,
Oes wir, chware teg,
O'i dannedd ei hunan,
A hithau'n naw deg!

Pan fydda' i'n hen,
Os bydda'i mor glên
A heini â honno,
Mi ro'i glamp o wên!

*Eurig Salisbury*

**Llefarydd:** Ionawr 1922. Rhannodd Syr Ifan ab Owen Edwards ei weledigaeth â phlant Cymru ar dudalennau *Cymru'r Plant*, gan eu hannog i ymuno â Mudiad Ieuenctid newydd a chyffrous.

Ei freuddwyd oedd creu gweithgareddau a oedd yn ateb anghenion pobl ifanc er mwyn iddyn nhw fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ei freuddwyd oedd creu mudiad lle bydd pobl ifanc yn cael budd o'u profiadau cymdeithasol trwy gyfrwng yr iaith.

Sefydlwyd y Mudiad Ieu**e**nctid a'i alw'n Urdd Gobaith Cymru.

**Deialog:**

Llais 1: Roedd gan Syr Ifan ab Owen Edwards freuddwyd fawr ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 2: Mae gan yr Urdd erbyn heddiw 50,000 o aelodau a 950 o ganghennau ym mhob cwr o Gymru, sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Llais 3: Gallwn ddweud i sicrwydd fod breuddwyd Syr Ifan wedi'i gwireddu.

*

Llais 1: Mae'n bwysig iawn ein bod yn breuddwydio breuddwyddion.

Llais 2: Breuddwydiodd Martin Luther King am weld tegwch i bobl groen tywyll Amercia.

Llais 3: Breuddwydiodd Gwynfor Evans am weld sianel yn ein hiaith.

Llais 1: A breuddwydiodd Syr Ifan ap Owen Edwards am weld mudiad arbennig yn cael ei sefydlu ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 2: Breuddwydiodd un person arall freuddwyd bwysig iawn hefyd.

Llais 2: Iesu Grist oedd ei enw! Roedd gan Iesu freuddwyd mawr iawn!

Llais 1: Fe freuddwydiodd Iesu Grist am weld byd yn byw mewn ffordd arbennig iawn.

Llais 2: Byd heb ryfel, ond yn byw mewn heddwch.

Llais 3: Byd lle mae pawb yn maddau i'w gilydd.

Llais 1: Byd lle mae pawb yn garedig ac yn rhannu eu heiddo a'u hadnoddau.

Llais 2: Byd yn byw ar gariad, a hwnnw'n gariad Duw.

**Darlleniad/Llefarydd:**

Mae Ioan yn dweud hyn yn y Testament Newydd…

'Ffrindiau annwyl, gadewch i ni garu'n gilydd, am fod cariad yn dod oddi wrth Dduw. Mae pawb sy'n caru fel hyn wedi ei eni'n blentyn i Dduw ac yn nabod Duw.

Os nad yw'r cariad hwn ddim gan rywun, dyw'r person hwnnw ddim yn nabod Duw chwaith — am mai cariad ydy Duw.

Dyma sut y gwnaeth Duw ddangos ei gariad aton ni: anfonodd ei unig Fab i'r byd, er mwyn i ni gael bywyd trwyddo.

Dyma beth ydy cariad: nid y ffaith ein bod ni'n caru Duw, ond y ffaith ei fod e wedi'n caru ni ac anfon ei Fab i farw trosom.

Ffrindiau annwyl, os ydy Duw wedi'n caru ni gymaint â hyn, dylen ninnau hefyd garu'n gilydd.

Does neb erioed wedi gweld Duw; ond os ydyn ni'n caru'n gilydd, mae Duw yn byw ynon ni ac mae ei gariad yn dod yn real yn ein bywydau ni.'

Dyna ddiwedd ei neges am y tro, ond mae'n addo bod ganddo lawer iawn mwy i'w ddweud.

**Deialog:**

Llais 1: Ie, roedd gan Iesu freuddwyd arbennig iawn am weld pawb yn y byd yn caru eu gilydd.

Llais 2: Ydy breuddwyd Iesu wedi dod yn wir?

Llais 3: Dydw i ddim yn credu'i bod.

Llais 1: Ie. Ond … mae Iesu am i *ni i* helpu i wireddu ei freuddwyd!

Llais 2: Sut mae gwneud hynny?

Llais 3: Wel, trwy sianelu cariad Duw at eraill yn ein bywyd.

Llais 1: Trwy rannu neges heddwch â'r byd, yn union fel mae ieuenctid Cymru'n rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da bob blwyddyn.

Llais 2: A hefyd rannu'n hadnoddau a'n hamser, a'n gweddïau.

Llais 3: Beth amdani? Ein braint ni yw breuddwydio gyda Iesu, a'i helpu i weld ei freuddwyd yn cael ei gwireddu!

**Gweddi**

Gweddïwn
O Dad, helpa ni i freuddwydio breuddwydion.
Breuddwydio gyda phawb a freuddwydiodd o'n blaenau.

Diolch i ti am yr Urdd, ac am freuddwyd Syr Ifan,
a diolch bod cenedlaethau o blant Cymru wedi elwa cymaint
oherwydd iddo freuddwydio.

Diolch am Iesu Grist,
ac am iddo'n gwahodd ninnau i rannu yn ei freuddwyd
am weld cariad, maddeuant a heddwch yn llywodraethu yn ei fyd.

Rho'r nerth a'r dewrder i ni sôn wrth ein ffrindiau am gariad Duw.

Yn enw Iesu Grist.
Amen

**Emyn 866** (Canuon Ffydd): '*Anfonodd Iesu fi..*'

Urdd Gobaith Cymru

# Oedfa Sul yr Urdd

## Tachwedd 18fed, 2012

### Thema - Y Freuddwyd

### Lluniwyd gan Beti-Wyn James

urdd.org

**Gweddi**
Arglwydd,
wrth ofyn am dy arweiniad i ni yn yr oedfa hon,
gweddïwn y bydd i'r cwbl a wnawn yma heddiw
droi yn fendith i ni ac yn ogoniant i'th enw Di. Amen.

**Arweinydd:** Croeso cynnes i'r oedfa ar Sul yr Urdd!

**Llefarydd neu Barti Llefaru**: Salm 150
Molwch yr Arglwydd.

Molwch Dduw yn ei gysegr, molwch ef yn ei ffurfafen gadarn.

Molwch ef am ei weithredoedd nerthol, molwch ef am ei holl fawredd.

Molwch ef â sain utgorn, molwch ef â nabl a thelyn.

Molwch ef â thympan a dawns, molwch ef â llinynnau a phibau.

Molwch ef â sŵn symbalau, molwch ef â symbalau uchel.

Bydded i bopeth byw foliannu'r ARGLWYDD.

Molwch yr Arglwydd!

**Arweinydd:** Gadewch i ni barhau yn ein mawl drwy ganu ein hemyn cyntaf sydd eto'n sôn am Foli enw'r Arglwydd. Rhif yr emyn yw 57.

**Emyn 57** (Canueon Ffydd): '*Molwch ar yr utgorn a thympan a dawns..*'

**Deialog**

Llais 1: Zzzzzzzzzz… *(yn chwyrnu wrth esgus cysgu.)*

Llais 2: Dihuna Jac! Dihuna!

Llais 1: *(wrth ddihuno/ymestyn breichiau/rhwbio llygaid)* O… roeddwn yn cysgu'n braf bryd 'ny!

Llais 2: Dihuna! Rwy ti wedi bod yn breuddwydio.

Llais 1: Breuddwydio? Nac ydw!

Llais 3: Maen nhw'n dweud bod pob un ohonom yn breuddwydio bob nos ond dydyn ni ddim bob amser yn cofio'n breuddwyd.

Llais 2: Sa i'n cofio'r freuddwyd! Diolch byth! Yr unig freuddwydion rwy'n eu cofio yw'r rhai sy'n codi ofn arnaf! Breuddwydion am fwystfilod neu am fôr ladron yn rhedeg ar fy ôl!

Llais 3: A minnau hefyd! Byddaf yn dihuno yn y bore ambell waith yn chwys domen oherwydd fy mod wedi breuddwydio bod gennyf fynydd o waith cartref! O diar, dyna beth yw breuddwyd ddrwg!

Llais 1: Nid yn unig yn ystod y nos rydych yn breuddwydio, fe allwch freuddwydio yn ystod y dydd hefyd.

Llais 3: Os ydych yn cwympo i gysgu yn ystod y dydd?

Llais 2: Na! Fe allwch freuddwydio gyda'ch llygaid ar agor! Mae fy athrawes ysgol yn dweud yn aml wrthyf i fy mod mewn breuddwyd!

Llais 1: Mae sawl math o freuddwyd a sawl ffordd o freuddwydio. Gallwn freuddwydio wrth gysgu yn y nos, ond hefyd, fe allwn freuddwydio breuddwydion arbennig iawn – breuddwydio am ein dyfodol.

Llais 2: Beth yn y byd wyt ti'n siarad amdano nawr?!

Llais 3: Ie… ry'n ni wedi dy golli di nawr!

Llais 1: Wel, fe allwn freuddwydio ein bod mewn man arall, neu am gael bod fel rhywun arall, ein harwr falle. Wrth gicio pêl rygbi ar draws cae'r ysgol, fe allwn freuddwydio ein bod yn Rhys Priestland yn Stadiwm y Mileniwm, neu'n George North wrth inni redeg â'r bêl.

Llais 2: Neu'n Ryan Giggs wrth gicio pêl-droed.

Llais 3: Neu'n un o arwyr byd athletau'r Gemau Olympaidd wrth i ni redeg!

Llais 1: Ie, yn union! Ond fe allwn freuddwyio math gwahanol eto o freuddwydion. Breuddwydion am weld y byd yn gwella.

Llais 2: Yn gwella o beth? Annwyd trwm!!!

Llais 3: Neu'r ffliw!

Llais 1: Na! Breuddwydio breuddwydion am weld pawb yn y byd yn derbyn yr un cyfleoedd. Breuddwydio am gael gweld tegwch yn y byd. Mae 'na

nifer wedi breuddwydio breuddwydion tebyg. Un o'r breuddwydion enwocaf a freuddwydiwyd erioed oedd un Martin Luther King.

**<u>Gohebydd newyddion yn torri ar draws y llefarwyr</u>**
*(Cerddoriaeth i gyflwyno'r 'Newyddion' os yn bosib)*

Awst 29, 1963. Croeso i newyddion Radio…(enw'r capel neu'r ysgol).

Daeth newyddion atom o America fod gŵr o'r enw Martin Luther King, sy'n ymladd trwy ddefnyddio dulliau di-drais dros hawl pobl ddu i gael chwarae teg, ac i gael bod yn rhydd yn eu gwlad eu hunain, wedi cael breuddwyd arbennig iawn.

Ac na, nid cysgu yn y gwely oedd e wrth freuddwydio, ond yn sefyll ar ei draed, o flaen cerflun Abraham Lincoln yn ninas Washington a miloedd ar filoedd o bobl yn gwrando arno'n sôn am ei freuddwyd.

Dywedodd fel hyn:

'Mae gen i freuddwyd y bydd fy mhedwar plentyn bach yn gallu byw rhyw ddydd yn rhan o genedl lle bydd eu cymeriad yn bwysicach na lliw eu croen;
Mae gen i freuddwyd y bydd bechgyn a merched bach tywyll eu croen rhyw ddydd yn medru dal dwylo gyda merched a bechgyn bach croen golau:
Mae gen i freuddwyd heddiw…'

Dyna ddiwedd y bwletin newyddion am y tro.

Nôl â ni i'r oedfa drwy ganu'n hemyn nesaf…

**Emyn 869** (Caneuon Ffydd) – '*Meddwl am fyd heb flodyn i'w harddu*'

**Deialog:**

Llais 1: Mae llawer o bobl Cymru wedi breuddwydio breuddwydion ac yn eu plith, Gwynfor Evans.

Llais 2: A wyddoch ein bod yn cofio canmlwyddiant geni Gwynfor Evans ar Fedi'r ail eleni?

Llais 3: Cafodd ei eni yn nhre'r Barri, Bro Morgannwg yn fab i siopwr.

Llais 1: Ef oedd un o wleidyddion mwya'r ugeinfed ganrif yng Nghymru.

Llais 2: Roedd yn Gristion ac yn heddychwr.

Llais 3: Breuddwydiodd Gwynfor Evans freuddwyd arbennig iawn am weld sianel deledu yn ein hiaith.

**<u>Gohebydd newyddion yn torri ar draws y llefarwyr</u>**

*(Cerddoriaeth i gyflwyno'r 'Newyddion' os yn bosib)*

Medi 1980. Rydym yn torri ar draws y darllediad hwn unwaith eto gyda rhagor o newyddion syfrdanol sydd newydd dorri.

Daeth neges yn dweud bod Prif Weinidog Prydain Fawr wedi newid ei meddwl ynglŷn â sefydlu Sianel Deledu Gymraeg i Gymru.

Bu ymgyrchwyr iaith yn brwydro ers nifer fawr o flynyddoedd dros gael gwasanaeth teledu Cymraeg. Gwrthododd rhai amlwg dalu'r drwydded deledu, a bu protestwyr yn dringo mastiau darlledu.

Gwnaeth Gwynfor Evans fygwth ymprydio hyd at farwolaeth ar ôl i'r Llywodraeth fynd yn ôl ar ei haddewid i roi sianel Gymraeg i Gymru.

Ond heddiw, newidiodd y Prif Weinidog ei meddwl unwaith yn rhagor a chytuno i sefydlu'r Sianel.

Felly, o Dachwedd 1af 1982, fe fydd rhaglenni Cymraeg yn cael eu darlledu ar sianel Gymraeg newydd o'r enw Sianel Pedwar Cymru, neu S4C.

Dyma weld o'r diwedd, wireddu breuddwyd Gwynfor Evans ac ymgyrchwyr iaith eraill ein cenedl.

'Nôl atoch chi yn yr oedfa.

**Deialog:**

Llais 1: Yn ogystal â dathlu can mlynedd ers geni Gwynfor Evans 'rydym hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig arall y flwyddyn hon.

Llais 2: Ydyn. Eleni mae'r Urdd yn dathlu ei phen-blwydd yn naw deg oed!

Llais 3: Naw deg oed! Dyw hi ddim wedi heneiddio o gwbl!

Llais 1: Nac ydy wir! Mae'n sionc o hyd!

Llais 2: Yn heini! Ac yn llawn bywyd!

Llais 3: Mae Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru, yn cytuno â ni! Lluniodd gerdd yn arbennig ar gyfer dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90! Beth am ei chlywed?

**<u>Llefarydd/Parti Llefaru</u>**

**Mae'r Urdd yn Naw Deg**

Mae'r Urdd yn naw deg,
Wel, wel, chware teg!
Mae'n rhedeg a dawnsio
A hithau'n naw deg!

Does angen na ffon
Na *zimmer* ar hon,
Ni welais neb sioncach
Na'r hen lodes lon.

Mae'n canu, llefaru,
Mae'n hoff o gystadlu,
Mae hefyd yn ffrindiau
Â phob un yng Nghymru.

Dewch draw, bawb, i'r parti,
Mae'n naw deg eleni!
Fe rown ni lond noson
Yn llawen iawn iddi.

Dewch heno, cyd-ddathlwn
Gyda hon, a rhyfeddwn –
Mae'n neidio a rhedeg
I gasglu ei phensiwn!

Mae ganddi lond ceg,
Oes wir, chware teg,
O'i dannedd ei hunan,
A hithau'n naw deg!

Pan fydda' i'n hen,
Os bydda'i mor glên
A heini â honno,
Mi ro'i glamp o wên!

*Eurig Salisbury*

**<u>Gohebydd newyddion yn torri ar draws y llefarwyr</u>**

*(Cerddoriaeth i gyflwyno'r 'Newyddion' os yn bosib)*

Ionawr 1922. Rydym yn torri ar draws yr oedfa hon gyda'r newyddion syfrdanol bod gŵr o'r enw Syr Ifan ab Owen Edwards wedi penderfynu sefydlu Mudiad Ieuenctid newydd yng Nghymru o'r enw Urdd Gobaith Cymru.

Mae Syr Ifan yn rhannu ei weledigaeth â phlant Cymru ar dudalennau *Cymru'r Plant*, ac yn annog plant a phobl ifanc Cymru i ymuno â'r mudiad newydd.

Ei freuddwyd yw creu gweithgareddau sy'n ateb anghenion pobl ifanc er mwyn iddyn nhw fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ei freuddwyd yw creu mudiad lle bydd pobl ifanc yn cael budd o'u profiadau cymdeithasol trwy gyfrwng yr iaith.

'Nôl atoch chi i'r oedfa.

**Deialog:**

Llais 1: Roedd gan Syr Ifan ab Owen Edwards freuddwyd fawr ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 2: Mae gan yr Urdd erbyn heddiw 50,000 o aelodau a 950 o ganghennau ym mhob cwr o Gymru, sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Llais 3: Gallwn ddweud i sicrwydd bod breuddwyd Syr Ifan wedi'i gwireddu.

Llais 1: A bod ieuenctid Cymru ar hyd y cenedlaethau wedi addo bod yn ffyddlon i Gymru, i Gyd-Ddyn ac i Grist.

Llais 2: Beth am i ni ddathlu drwy ganu'r emyn nesaf...

**Emyn 832** (Canueon Ffydd): *'Dysg imi garu Cymru…'* *(gan esbonio i'r gynulliedfa fod y tri phennill yn cyd-fynd ag arwyddair yr Urdd – Cymru, Cyd-ddyn a Christ.)*

**Deialog**

Llais 1: Mae'n bwysig iawn ein bod yn breuddwydio breuddwyddion.

Llais 2: Breuddwydiodd Martin Luther King am weld tegwch i bobl groen tywyll America.

Llais 3: Breuddwydiodd Gwynfor Evans am weld sianel yn ein hiaith.

Llais 1: A breuddwydiodd Syr Ifan ap Owen Edwards am weld mudiad arbennig yn cael ei sefydlu ar gyfer ieuenctid Cymru.

Llais 2: Rydym wedi angofio sôn am un arall a gafodd freuddwyd bwysig iawn.

Llais 3: Un arall? Pwy?

Llais 2: Iesu Grist! Roedd gan Iesu freuddwyd fawr iawn!

Llais 1: Wel oedd, yn sicr. Fe freuddwydiodd Iesu Grist am weld byd yn byw mewn ffordd arbennig iawn.

Llais 2: Byd heb ryfel, ond yn byw mewn heddwch.

Llais 3: Byd lle mae pawb yn maddau i'w gilydd.

Llais 1: Byd lle mai pawb yn garedig ac yn rhannu eu heiddo a'u hadnoddau.

Llais 2: Byd yn byw ar gariad, a hwnnw'n gariad Duw.

**<u>Cyflwynydd yn torri ar draws y llefarwyr (yn darlledu'r newyddion)</u>**
*(Cerddoriaeth i gyflwyno'r 'Newyddion' os yn bosib)*

(Dyddiad heddiw) 2012. Rydym yn torri ar draws eich oedfa oherwydd ein bod wedi derbyn neges arbennig iawn oddi wrth Dduw, drwy Ioan, ei ohebydd.

A dyma'r hyn sy ganddo i'w ddweud wrthym:

'Ffrindiau annwyl, gadewch i ni garu'n gilydd, am fod cariad yn dod oddi wrth Dduw. Mae pawb sy'n caru fel hyn wedi ei eni'n blentyn i Dduw ac yn nabod Duw.

Os nad yw'r cariad hwn gan rywun, dyw'r person hwnnw ddim yn nabod Duw chwaith — am mai cariad ydy Duw.

Dyma sut gwnaeth Duw ddangos ei gariad aton ni: anfonodd ei unig Fab i'r byd, er mwyn i ni gael bywyd trwyddo.

Dyma beth ydy cariad: nid y ffaith ein bod ni'n caru Duw, ond y ffaith ei fod e wedi'n caru ni ac anfon ei Fab i farw trosom.

Ffrindiau annwyl, os ydy Duw wedi'n caru ni gymaint â hyn, dylen ninnau hefyd garu'n gilydd.

Does neb erioed wedi gweld Duw; ond os ydyn ni'n caru'n gilydd, mae Duw yn byw ynon ni ac mae ei gariad yn dod yn real yn ein bywydau ni.'

Dyna ddiwedd ei neges am y tro, ond mae'n addo bod ganddo lawer iawn mwy i'w ddweud.

'Nôl atoch chi i'r oedfa.

**Deialog:**

Llais 1: Ie, roedd gan Iesu freuddwyd arbennig iawn am weld pawb yn y byd yn caru eu gilydd.

Llais 2: Ydy breuddwydd Iesu wedi dod yn wir?

Llais 3: Dydw i ddim yn credo ei bod. Dyna siom.

Llais 1: Ie. Ond … mae Iesu am i ni i helpu i wireddu ei freuddwyd! Dyna gyffrous!

Llais 2: Sut yn y byd allwn ni wneud hynny?!

Llais 3: Wel, trwy sianelu cariad Duw at eraill yn ein bywyd wrth gwrs!

Llais 1: Trwy rannu neges heddwch â'r byd, yn union fel mae ieuenctid Cymru'n rhannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da bob blwyddyn.

Llais 2: A hefyd rannu'n hadnoddau a'n hamser, a'n gweddïau.

Llais 3: Reit! Awn amdani! I freuddwydio gyda Iesu, a'i helpu i weld ei freuddwyd yn cael ei gwireddu!

Llais 1,2 a 3: Awê!!!

**Gweddi**

Gweddïwn
O Dad, helpa ni i freuddwydio breuddwydion.
Breuddwydio gyda phawb a freuddwydiodd o'n blaenau.

Diolch i ti am yr Urdd, ac am freuddwyd Syr Ifan,
a diolch bod cenedlaethau o blant Cymru wedi elwa cymaint oherwydd ei freuddwyd.

Diolch am Iesu Grist,
ac am iddo'n gwahodd ninnau i rannu yn ei freuddwyd
am weld cariad, maddeuant a heddwch yn llywodraethu yn ei fyd.

Rho'r nerth a'r dewrder i ni sôn wrth ein ffrindiau am gariad Duw.

Yn enw Iesu Grist.
Amen

**Emyn 866** (Canuon Ffydd): '*Anfonodd Iesu fi..*'

**Gweddi i gloi**

Ewch mewn tangnefedd,
i garu ac i wasanaethu'r Arglwydd mewn llawenydd.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân,
fyddo gyda ni oll, Amen.